# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 549 · **Ionawr 2024** · 70c

## LLI MAWR



Dyma lun o Nant Ffrancon ar 27 Rhagfyr, efo afon Ogwen wedi gorlifo'i glannau yn dilyn y glaw trwm.
Tynnwyd y llun o'r briffordd, a gellir gweld cyrn a rhan o do ffermdy Braich Tu Du, a'r tir rhyngddo a'r afon wedi troi'n llyn.



## CELT YN DATHLU'R 40

Cafwyd noson werth chweil yng nghwmni'r band Celt yn Neuadd Ogwen ar 28 Rhagfyr, gyda'u perfformiad egnïol yn plesio'r cynulleidfa niferus. Efo nhw yn rhan o'r rhaglen roedd y bandiau Soap ac Ofergoelus.

Roedd hon yn noson arbennig i Celt, gan eu bod yn dathlu deugain mlynedd o berfformio, ac yn ystod y cyfnod maent wedi ymddangos ar lwyfannau ledled Cymru fel un o fandiau gorau a mwyaf poblogaidd ein gwlad. Ar y noson, fel y gellid disgwyl, roedd eu clasuron yn rhan o'u set, a chawson nhw ymateb brwd eu cefnogwyr.

Mae dathlu deugain mlynedd o berfformio yn cyd-fynd â chyhoeddi'r llyfr *Rhwng Bethlehem a'r Groes* gan Barry 'Archie' Jones, cyfansoddwr y rhan fwyaf o'u caneuon ac un o sylfaenwyr y grŵp yn nechrau'r 1980au.

Yn y rhifyn yma

Cyrraedd y Cant



18

Cyngerdd Nadolig Ysgol Tregarth



11

# Llais Ogwan

## Rhif 549
Ionawr 2024


**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com
**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk
**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


### Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
**Dewi A. Morgan.**

Y golygyddion ym mis Chwefror fydd
Walter a Menai Williams,
14 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN.
01248 601167
E-bost: waltermenai@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 27 Ionawr** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu **Nos Iau**, **15 Chwefror**, yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45

DALIER SYLW: NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol diweddar yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris o'r £27 arfaethedig i £35 am y flwyddyn 2024.


Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG



ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

**Andrew G. Lomozik B.A.**
**Ffôn:** 01248 602117
**Symudol:** 07835487909


# Dyddiadur y Dyffryn

**Ionawr**
23 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
30 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

**Chwefror**
05 Merched y Wawr Tregarth. "Bwyta'n Iach". Festri Capel Shiloh Newydd am 7.30.
08 Cymdeithas Jerusalem. Cwis. Festri am 7.00.
10 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
12 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem am 10.30.
12 Cymd. Hanes D. Ogwen. Cynrig Hughes ac Arwyn Oliver. Festri Jerusalem am 7.00.
13 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
15 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45.
24 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.
26 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem am 10.30.

**Mawrth**
09 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £20.00 | Er cof annwyl am David Lyn Jones a Cemlyn Llyr Owen. Oddi wrth Cynthia, Bob a Robat, 6 Bro Syr Ifor, Tregarth. |
| £10.00 | Doris Shaw, Arafa Don, Bethesda. |
| £3.30 | Di-enw Abercaseg. |
| £20.00 | Renee Parry, Maes y Garnedd, Bethesda. |
| £2.00 | Mân Roddion. |
| £3.00 | Di-enw. |
| £12.50 | Shirley Pritchard, Pantglas, Bethesda. |
| £2.00 | Di-enw. |
| £20.00 | Jean Hughes, Maes Bleddyn, er cof am Derek. |
| £2.30 | Dave Allsup, Llwyn Bedw, Rachub. |

**Diolch yn fawr**

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Ionawr**
£30.00 – (130) Wynne ap Iorwerth, Mynydd Llandygai.
£20.00 – (8) Paul Rowlinson, Bethesda.
£10.00 – (105) Gwen Ellis, Talybont.
£5.00 – (96) Gwynfryn Davies, Caernarfon.

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Profedigaeth**
Wrth i'r hen flwyddyn ddirwyn i ben, bu rhaid inni ffarwelio â bonheddwr, ysgolhaig a ffrind annwyl, sef Dr. Neville Fearnley, 'Helyg', Tyddyn Cottages.

Bu farw'n dawel yn ei gartref ar Rhagfyr 10ed, â Margaret, ei wraig o 65 o flynyddoedd, yn ei ymyl. Buont yn canlyn ers i Neville ddod, fel myfyriwr, i letya i Dalybont.

Yr oedd Nev yn ddyn hynod o ddiddorol, ac yn un difyr i fod yn ei gwmni. Serch hynny, yr oedd yn berson tawel a phreifat. Roedd ganddo ystod eang iawn o ddiddordebau, llawer ohonynt yn mynd â'r teulu cyfan allan i'r awyr agored. Cafodd y plant fagwraeth ardderchog ac, er bod ganddo lawer o ffrindiau da, ei wraig a'i deulu oedd canolbwynt ei fywyd.

Rhinwedd arall a feddai Nev arni oedd dewrder. Ni fyddai byth yn cwyno. Yng nghanol ei gystudd hir, daliodd i wenu drwy'r cyfan, a ni fethodd erioed â diolch i'w ofalwyr am bob cymwynas.

Mag, Dylan, Siân a David, derbyniwch gydymdeimlad diffuant trigolion yr ardal i gyd yn eich profedigaeth. Mae Talybont yn le tlotach o golli Neville.

**Cydymdeimlad**
Ar Ŵyl San Steffan, daeth y newyddion trist bod Gwyneth Morris, Cae Garnedd, Penrhos, Bangor, wedi'n gadael. Ganed a magwyd Gwyneth yn Nhalybont, yn ferch i Harry a Dilys Roberts, Cae Gwigin, ac yn chwaer i Heddwyn, Arfon a'r ddiweddar Beryl. Anfonwn gydymdeimlad dwysaf at Maldwyn, ei gŵr, ei merch, Rhian, ei meibion Eric ac Ian a'r teulu cyfan yn eu galar.

**Llongyfarchiadau**
Mae Cai Smith, 47 Bro Emrys, wedi ennill gradd Meistr mewn Gwyddor Cyfrifiadureg, gyda Rhagoriaeth.

Gwych, Cai, rwyt ti wedi gweithio'n galed iawn. Mae dy deulu a'th ffrindiau yn y pentref mor falch ohonot. Pob bendith a llwyddiant iti i'r dyfodol.

**Clwb Coffi Talybont**
Yn Festri Bethlehem, ar ddydd Llun, 11 Rhagfyr, mwynhawyd bwffe Nadolig gan yr aelodau a'u ffrindiau. Roedd pawb yn canmol yr achlysur yn ogystal â'r lluniaeth ardderchog a ddarparwyd gan Cegin Karen, Bethesda. Diolch yn fawr i'r rhai a ddanfonodd blateidiau o'r bwffe i'r aelodau oedd yn methu bod yn bresennol.

**Blwyddyn Newydd**
Dymunwn iechyd da a blwyddyn heddychlon i bawb yn y Dyffryn.

## Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*

Ionawr 21: Parchg. Megan Williams.
Ionawr 28: Oedfa.
Chwefror 4: Mr. Richard Morris Jones.
Chwefror 11: Dr. Elwyn Richards.
Chwefror 18: Mr. Richard Parry Jones.

Croeso cynnes i bawb.

**Rhoddion Elusennol** Mae'n braf medru dweud ein bod, fel eglwys, wedi cyfrannu £500 tuag at elusennau ym mis Rhagfyr, sef £200 i Gymorth Cristnogol a £100 yr un i Ambiwlans Awyr Cymru, Tŷ Gobaith a Hosbis Dewi Sant.

**Ffair Nadolig** Gwnaed elw gwych o £851.00 yn y ffair a gynhaliwyd yn y festri ar nos Fawrth, 5 Rhagfyr. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth i ni ym Methlehem.


Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead cyf
Swyddfa Gofrestredig Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com


**BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB YMHELL AC AGOS!**


MODURON PANDY Cyf.
UNIPART CAR CARE CENTRE
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs: 01248 601754
07770 568743 (symudol)

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid,
Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr Huw Jones, Llwyn Bedw, sydd mewn profedigaeth ar ôl colli ei fam ar y 25 o fis Rhagfyr. Cydymdeimlwn â Sara ac yntau, ynghyd â'u plant Hana a Hari.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Gwion Emlyn Williams (Henbarc gynt) ag Anna Powys o Landaf Caerdydd ar eu dyweddïad yn ddiweddar.

### Cyngor Cymuned Llanllechid

**Rhagfyr 2023**
Yn gyntaf, dymunai'r Cyngor Cymuned Flwyddyn Newydd dda i'r plwyfolion a thu hwnt.

Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf 2023 ar yr 15fed o Ragfyr yn Nhalybont. Ymunodd Y Cynghorydd Sir Dafydd Meurig â'r cyfarfod. Cafwyd adroddiad byr gan Y Cynghorwyr Jen Morris a Lowri Evans a fynychodd gyfarfod blynyddol Partneriaeth Ogwen. Hoffai Cyngor Cymuned Llanllechid longyfarch Y Bartneriaeth ar ei llwyddiannau eleni. Mae'r dyfodol yn ddisglair.







## Capel Carmel



Oedfaon am 5.00 oni nodir yn wahanol.
Ionawr 21: Parchg. R. O. Jones.
Ionawr 28: Oedfa.
Chwefror 04: Parchg. John Pritchard.
Chwefror 11: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Chwefror 18: Oedfa.
Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Sul am 10.30.
Clwb Dwylo Prysur. Bob dydd Gwener am 6.30.

Rydan ni'n anfon ein cofion at rai o blith yr aelodau sy'n anhwylus ar hyn o bryd. Mae Mrs Valerie Thomas yn dal i fod yn Ysbyty Gwynedd. Mi ddaeth Mrs Nia Ellis Williams adref ar ôl ysbaid yn Ysbyty Gwynedd. Mae Mr Joe Hughes wedi bod yn teimlo yn anhwylus yn ddiweddar hefyd. Dymunwn yn dda i'r tri ohonyn nhw gan obeithio y byddan nhw'n teimlo yn well yn fuan iawn.

**Yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysur**
Yn gynnar ym mis Rhagfyr, mi aeth plant yr Ysgol Sul a rhai o ieuenctid Clwb Dwylo Prysur i Foelyci i weld Dwynwen y mul bach y gwnaethom ni ei fabwysiadu yn ystod yr haf. Cafodd Dwynwen anrheg Nadolig gan y plant, sef hosan yn llawn moron ac afalau! Wedyn, mi gafodd y plant fynd i weld Siôn Corn a dod â'r ymweliad i ben gyda pharti ardderchog yn y caffi sydd yno.



**Gwasanaeth y Plant a'r Bobl Ifanc**
Yn ystod y bore, mi fuom ni'n ymarfer ar gyfer y gwasanaeth ac ar y diwedd, mi ddaeth Siôn Corn eto gyda siocled ac anrhegion i bob un o'r plant a'r ieuenctid. Wedyn am 5 o'r gloch ar 17 o fis Rhagfyr, mi gawsom ni ein gwasanaeth Nadolig. Mi gymerodd aelodau'r clwb eu rhannau yn ardderchog ac roedd pob un ohonyn nhw'n gwneud ei orau wrth ddarllen yn unigol neu gydadrodd cerddi Nadolig, canu unawdau ac mewn parti hefyd. Tro'r plant oedd hi wedyn, rhai yn cymryd eu rhannau fel anifeiliaid yn y beudy ar noson geni'r Iesu. Roedd pawb wrth eu boddau yn gwylio ac yn gwrando ar y plant. Da iawn y nhw!

**Hysbyseb**
Te Bach mis Ionawr
Pnawn Llun Ionawr 22, 2:30 – 4:00.
Croeso i bawb.

**Y PARCH D J ROBERTS**
Anfonwyd y llun hwn at Llais Ogwan gan Yr Athro Hywel Roberts, Bow Street, Ceredigion. Roedd tad Hywel y diweddar Parch D. J. Roberts yn weinidog ar gapel Carmel, Rachub cyn yr Ail Ryfel Byd. Mae D. J. Roberts yn sefyll ail o'r dde yn y rhes gefn ac yn gwisgo sbectol. Tybed oes rhywun yn gallu enwi gweinidog arall yn y llun a thybed ble dynnwyd y llun?



Cylch Gweinidogion Dyffryn Ogwen 1937-38

# YSGOLION ABERCASEG A PHENYBRYN





**Mr Phormula**
Diolch mawr i Mr Phormula (Ed Holden) am ymweld â phlant Ysgol Abercaseg yn ddiweddar. Cafwyd sesiwn 'beatbocsio' gyda phawb yn ogystal ag ysgrifennu a pherfformio rap gwreiddiol gan y plant hynaf.

**Canu i Blas Ogwen**
Bendigedig oedd cael mynd â chriw blwyddyn 2 dosbarth Ffrydlas, Abercaseg a chôr Ysgol Penybryn i Blas Ogwen i berfformio casgliad o ganeuon Nadolig i'r preswylwyr a'r staff. Roedd plant Abercaseg wedi paratoi rhestr siopa ar gyfer prynu rhoddion i bawb – yn fins peis, bisgedi, cacennau siocled a llawer mwy ac roedd pawb wedi gwirioni. "Nid caneuon Nadoligaidd yn unig gafodd eu canu ond can i ddymuno penblwydd hapus i ddwy oedd yn newydd ddathlu eu penblwyddi yn 100 oed! Diolch mawr am y croeso cynnes a hefyd am y danteithion a'r bisgedi blasus. Mae'r plant yn edrych ymlaen at gael mynd yn ôl i fwynhau cwmni preswylwyr Plas Ogwen eto'n fuan.

**Trip Pili Palas**
Cafwyd diwrnod i'r brenin yn ystod mis Rhagfyr pan aeth pob un o blant Abercaseg ar drip i Pili Palas. Nid yn unig gweld yr holl anifeiliaid a chwarae tu mewn a thu allan oedd ar yr amserlen ond roedd y dyn ei hun, Sion Corn yno yn disgwyl am y plant gydag anrheg ar gyfer pob un.

**Chwaraeon**
Cafodd tîm pêl-droed bechgyn Ysgol Penybryn cryn lwyddiant yn ddiweddar. Yn dilyn gemau cyfeillgar (tîm merched a bechgyn) yn erbyn Ysgol Tregarth, aeth y tîm bechgyn ymlaen i gystadlu mewn twrnamaint pêl-droed yr Urdd yn Nhreborth ble roedd dros 30 o ysgolion yn cystadlu! Yn wir, aeth tîm y bechgyn ymlaen i'r ffeinal heb ildio'r un gêm, ond colli o 3-0 yn erbyn tîm cryf iawn o Fethel oedd eu hanes yn y diwedd. Er hyn, roeddynt wedi chwarae'n arwrol ac yn rhoi eu gorau glas. Da iawn chi hogia Pesda!

**Cinio Nadolig**
Diolch o galon eto eleni i Anti Marian, Anti Nerys, Anti Sandra, Anti Dona ac Anti Wendy am ginio Nadolig blasus dros ben. Y '*pigs in blankets*' oedd hoff beth Enlli ond y pwdin siocled gyda hufen ia oedd ffefryn Isla!

**Sioe Gerdd – Olifar**
Cafodd adrannau Iau ysgolion y dyffryn wahoddiad arbennig i Ysgol Dyffryn Ogwen i fwynhau '*premiere*' o'u cynhyrchiad arbennig 'Olifar'. Wel am sioe a pherfformiadau anhygoel gan nifer helaeth o gyn-ddisgyblion ysgolion Pen-y-bryn ac Abercaseg

**Pontio**
Cafodd disgyblion Pen-y-bryn modd i fyw wrth gael trip lawr i Fangor i wylio ffilm newydd 'Wonka'. Braf oedd cael ymlacio ar ddiwedd tymor ymysg ffrindiau da, pop corn a diod o pop fel rhan o'r fargen!

**Gwasanaethau Nadolig**
Braint oedd cael gwahodd teuluoedd a ffrindiau plant yr ysgol i gyngherddau'r ddwy ysgol eto eleni. Cynhaliwyd un yn yr ysgol gan blant y Dosbarth Meithrin a dau yn Eglwys Glanogwen gan blantos llawn amser Abercaseg, ac un arall gan ddisgyblion Ysgol Pen-y-bryn. Braf gweld y ddwy noson yn yr eglwys dan ei sang. Diolch o galon i'r Parch. Sara Roberts ac i aelodau'r eglwys am y croeso cynnes ar gyfer yr ymarferion a hefyd ar y nosweithiau gyda phaned, bisged a chacen ar gael yn dilyn y gwasanaethau. Diolch hefyd i 'Caron Emlyn Sain' am drefnu a pharatoi'r system sain ar gyfer cyngherddau'r ddwy ysgol. Roedd y plant werth eu gweld a phawb, yn staff, rhieni a ffrindiau yn falch dros ben.






## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

**Taith Sion Corn**
Unwaith eto eleni daeth Sion Corn a'i Gorachod ar ymweliad â'r fro ar 9 Rhagfyr, gan alw ym Mhentir, Caerhun a Glasinfryn. Diolch yn fawr i Bwyllgor y Carnifal am drefnu y daith a rhoi mwyniant i blant y fro, (a'r oedolion!)

**Bingo**
Cafwyd noson gwerth chweil yn y Bingo Nadolig yn y Ganolfan ar 1 Rhagfyr. 'Roedd pawb wedi dod a phob math o ddanteithion i'w mwynhau wedi'r Bingo. Gwnaed elw o £125 tuag at Ysgol Pendalar, Caernarfon. Diolch o galon i bawb sydd yn cyfrannu yn hael a chefnogi y bingo drwy'r flwyddyn. Cewch hoe fach 'rwan tan ddiwedd Chwefror pryd y bydd y bingo yn ail gychwyn.

**Cylch Glasinfryn**
Aeth y Cylch i Fistro Melin Seiont am eu cinio Nadolig, ble cafwyd pryd ysgafn a chyfle i gymdeithasu. Diolch yn fawr i Carole Singleton am drefnu. Byddwn yn ail gychwyn 10 Ionawr pryd y gawn sgwrs gan Llinos Morris o Brifysgol Bangor ar "Hunan Ofal". Yna ar 14 Chwefror bydd y Cyfarfod Blynyddol a Chymdeithasol gyda phaned a chacen. Mae croeso cynnes iawn i chwi ymuno â ni yn y Ganolfan am 2yp.

**Profedigaeth**
Daeth newyddion am ddwy brofedigaeth drist yn ystod mis Rhagfyr.

Mewn hospis yn ymyl ei gartref yn Cullingworth, wedi gwaeledd byr o dair wythnos, bu farw David Farrar yn 80 oed. Bu ef a'i wraig Ingrid yn byw ym Mhenhower Isaf Newydd am dros ugain mlynedd cyn iddynt symud i Cullingworth dair blynedd yn ôl. Y ddau wedi dysgu Cymraeg ac yn gwneud llawer yn lleol.

Daeth y newyddion trist i'r fro am farwolaeth Llinos Aylwin Pinches (Jones gynt) a hithau ond yn 42 oed. Magwyd Llinos a'i hefaill Luned yn Fferm Tyn Ffridd, Waen Wen, yn ferch i Pat a'r diweddar Aylwin.

Mae yn gadael ei gŵr Tudor a'i mab Ben yng Nghroesoswallt.

Anfonwn ein cydymdeimlad at y ddau deulu yn eu profedigaeth a'u colled.

**Cyfarchion**
Dymuniadau gorau am Flwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr y Llais yn yr ardal. Cofiwch os oes gennych newyddion i'r Llais i gysylltu â mi, rhif ffôn uchod. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn a fu.

## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

**Merched y Wawr**
Bu ein haelodau'n mwynhau Cinio Nadolig tri chwrs, gyda choffi a mins pei i ddiweddu, yng Ngholeg Menai, ar 6 Rhagfyr, ac roedd pawb wedi mwynhau'r wledd. Rhoddwyd y wobr i'r raffl gan Linda, a enillwyd gan Jennifer.

**Clwb Rhiwen**
Aeth yr aelodau i Gardd Fôn, y Felinheli, ar 13 Rhagfyr, i fwynhau eu Cinio Nadolig ac roedd pawb yn canmol y wledd. Rhoddwyd y wobr i'r raffl gan Mrs Dilys Parry, a hithau hefyd wnaeth ennill y raffl.

**Llongyfarchiadau**
Hoffwn longyfarch Cadeirydd Neuadd Bentref Rhiwlas Elfyn Jones-Roberts a dderbyniodd wobr Sêr Cymunedol gan Adra yn ddiweddar. Mae'r wobr yn cydnabod gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud er budd eraill yn y gymuned. Mae Elfyn hefyd yn cynrychioli Grwp Diffib pentref Rhiwlas.



Elfyn Jones-Roberts (dde) yn derbyn ei dystysgrif.

## Y Gerlan

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Ellen Williams Stryd y Ffynnon sydd wedi pasio ei phrawf gyrru. Da iawn chdi Ellen!


**Penblwydd Arbennig**
Penblwydd hapus arbennig iawn i Dyddgu Glyn, Stryd Isaf a ddathlodd ei phen-blwydd yn 21 dechrau mis Rhagfyr. Gobeithio dy fod wedi cael amser da yn dathlu'r garreg filltir yma Dyddgu.

Penblwydd hapus iawn i Jean Jones Gwernydd. Dathlodd Jean ei phen-blwydd yn 80 ar y 14eg o Ragfyr. Cofion cynnes atoch Jean.

Penblwydd hapus arbennig iawn i Alun Thomas, Ffordd Gerlan gan Alan, Kevin, Yvonne a'r teulu i gyd. Mae'r lluniau ohono yn dyst nag ydio'n edrych ddiwrnod yn hŷn na 60! Gwynt y mynydd a Subarus yn ei gadw'n ifanc mae'n rhaid! Gobeithio'ch bod wedi mwynhau dathlu'r achlysur arbennig

**Cydymdeimlo**
Gyrrwn ein cydymdeimlad dwysaf at Rhian a Richard Ogwen Yr Ardd Fawr, Gerlan. 'Chydig ddyddiau cyn y Nadolig, bu i Rhian golli eith thad, Dewi Llewelyn Davies. 'Rydym y meddwl amdanoch, Ceri, Lowri, Danial, Elis a'r teulu i gyd wrth i chi golli tad, taid a hen daid arbennig.

'Rydym fel cymuned wedi ein brawychu a'n tristau gyda marwolaeth Gareth Owen Jones (Bow) Ciltwllan . Cydymdeimlwn efo'i wraig, Gwenllian Dafydd a'r teulu a hefyd gyda rhieni Bow, Carys a Norman yn Llangower a'r teulu i gyd. Yn 43 oed, mae wedi ein gadael yn llawer rhy fuan. 'Roedd Bow yn gymeriad annwyl, hoffus a phoblogaidd ac 'rydym yn meddwl amdanoch chi gyd yn ystod yr amser anodd yma.

CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu
18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369
neu 07813 455653

DAFYDD CADWALADR
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

### Eglwys Sant Cedol, Pentir

**Hamper Misol**
Rydym yn cynnal raffl o Hamper Misol ar themâu gwahanol bob mis er mwyn codi arian i gynnal yr Eglwys, enillydd yr Hamper Mis Rhagfyr oedd Nesta Barton yn roddedig gan Mair, Eirwen a Nia, a'r ail wobr o botel o Win yn mynd i Michelle. Hoffwn ddiolch i'r aelodau, ein teuluoedd a'i teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl, hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn ei rhodd o'r hamperi. Diolch o galon i chi gyd.

**Bora Coffi**
Bora Sul y 3 o Rhagfyr agorodd Cefin a Rhian Roberts ddrws ei cartref ar gyfer Bora Coffi gyda elw y raffl yn mynd tuag at Gronfa Atgyweirio Egwlys St. Cedol. Diolch o galon i chwi am eich caredigrwydd.

**Dathliad o'r Nadolig**
Braf oedd gweld cynifer ynghyd ar Nos Sul 17 Rhagfyr i ddathlu Gwyl y Nadolig, gyda datganiadau cerddorol ar yr Organ a'r Clarinét gan Sharon Williams a Sioned Roberts, cafwyd unawdau a deuawdau gan Helen, Sharon a Cefin a datganiadau llafar gan Eirwen, Nia, Lyndon, Cefin a Adrian, yn ystod y noson ymunodd y gynulleidfa i ganu carolau traddodiadol. I ddiweddu'r noson mwynhawyd mins peis a "mulled wine". Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Te Bach**
Cynhaliwyd Te Bach Nadoligaidd brynhawn dydd Mercher 6 Rhagfyr roedd yn brynhawn llwyddiannus a hwyliog, gydag amryw o wobrau raffl. Diolch i bawb am ei cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

Bydd y Te Bach yn cael ei gynnal ar brynhawn Mercher cyntaf or mis am 2 o'r cloch, bydd y Te Bach yn ail gychwyn ar y 6ed o Fawrth 2024 i ddathlu gwŷl ein nawddsant. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisen a sgwrs.

**Gwasanaethau'r Sul**
Mae Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30yb mae croeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaethau, gyda phanad a sgwrs i ddilyn.

**Manylion cyswllt**
Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall i ymwneud â'r Eglwys cysylltwch a'r Y Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521, cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu cael sgwrs.

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

**CANOLFAN CEFNFAES**
## Gyrfa Chwist
Ionawr 23 a 30
Chwefror 13 a 27
am 7 o'r gloch. Croeso i bawb

**FESTRI JERUSALEM**
**Y GYMDEITHAS**
## CWIS
YNG NGOFAL NIA JONES
NOS IAU,
8 CHWEFROR
AM 7 O'R GLOCH



## Clwb Coffi Talybont
YN FESTRI BETHLEHEM
Boreau Llun, 10.30 – 12.00
Chwefror 12 a 26
Croeso cynnes i bawb

**CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN**

**Cynrig Hughes ac Arwyn Oliver**
Helynt yn Rhiwlas, Pentir a Mynydd Llandygai –
Streic Fawr Chwarel y Penrhyn

**Nos Lun, 12 Chwefror 2024 am 7.00yh**

**Wyneb yn wyneb**: Yn Festri Capel Jerusalem, Bethesda.
Cofrestrwch efo
garethllwyd197@btinternet.com

Rhithiol tros Zoom: Cofrestrwch efo bethan@ogwen.org
Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf

### DYDDIADUR BOREAU COFFI



**2024**
24 Chwefror – Eglwys Crist Glanogwen – Festri Jerusalem.
23 Mawrth – Plaid Cymru – Cefnfaes.
20 Ebrill – Eisteddfod Dyffryn Ogwen – Cefnfaes.
11 Mai – Cymdeithas Jerusalem - Festri Jerusalem.
18 Mai – Cymorth Cristnogol – Cefnfaes.

**Pwysig**
*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis.Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*

# YSGOL BODFEURIG

**Nadolig ym Modfeurig**
Mae cyfnod y Nadolig yn llawn prysurdeb, plant wedi cyffroi a llawer o glitter! Dyma ychydig o'n hanes yn ystod y cyfnod.

**Ffair Nadolig**
Diolch i'r CRhA am drefnu ffair Nadolig oedd yn llwyddiant ysgubol. Ynghyd ag ymweliad gan y dyn ei hun, Sion Corn, roedd amrywiaeth o stondinau, bwyd blasus a chyfle i ddod at ein gilydd. Llwyddwyd i godi dros £600 tuag at yr ysgol.

**Cinio Nadolig**
Unwaith eto eleni cawsom ginio Nadolig bendigedig. Diolch o galon i Anti Anwen, Anti Dana, Anti Mary ac Anti Rhian am y cinio gwerth chweil ond hefyd am eu gwaith caled yn bwydo a gofalu am blant yr ysgol pob dydd.

Coron ar y cinio (yn llythrennol) oedd ein cystadleuaeth het Nadolig. Roedd angen creu het allan o ddeunyddiau naturiol neu rhai wedi eu ailgylchu ac ailddefnyddio ac ni chawsom ein siomi. Diolch i bawb am yr ymdrech a llongyfarchiadau i'r hetiau buddugol.





**Sioe Nadolig**
Daeth hud a lledrith y Nadolig i Neuadd Goffa Mynydd Llandegai wrth i blant yr ysgol berfformio 'Antur yr Angylion'. Perfformiwyd o flaen neuadd lawn a pawb wir wedi mwynhau y profiad. Da iawn chi blantos roeddech chi'n wych!



**Ymweliadau Nadolig**
Pob blwyddyn byddem yn mynd ar ymweliadau – cafodd dosbarth Ogwen fynd i Venue Cymru i wylio panto Peter Pan, sioe wych oedd yn llawn hwyl! Tra bo dosbarth Idwal wedi mynd i Pili Palas lle roedd neb llai na Sion Corn yn aros amdanynt i glywed beth roeddent yn gobeithio ei gael fel anrheg.



**Cyngerdd Ysbyty Gwynedd**
Mae cyfnod y Nadolig yn gyfle i feddwl am a rhoi i eraill – dyma felly oedd bwriad plant yr ysgol wrth iddynt dderbyn cynnig i ganu yng nghyngerdd Nadolig Ysbyty Gwynedd. Cawsom ymuno gydag artistiaid eraill gan gynnwys neb llai na Elvis! Rhoddodd pawb yn ysbryd y Nadolig – gobeithio fod y cleifion, teuluoedd a staff wedi mwynhau.


SIOP OGWEN
yn cynnig gwasanaeth
CLIC A CHASGLU
Llawer o Nwyddau Newydd gan Grefftwyr Newydd wedi cyrraedd y siop
Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar y ffôn
07394 905881
neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu
CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
Stryd Fawr, Bethesda
PROFION M.O.T.
GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30
Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

# Iaith Pesda

gan Mary Jones

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd a diolch i lawer ohonoch am eich geiriau caredig yn ymateb i'r golofn. Rwyf yn dal i dderbyn cardiau a'u llond o eiriau, ond byth yn gwybod gan bwy, ond diolch am y diddordeb.

Yn ymateb i'r sylwadau am regi meddai Andre Lomozik 'Byddwn yn clywed pobl yn dweud "Mae isio golchi dy geg efo dwr a sebon" pan oeddent yn clywed plant yn defnyddio iaith anweddus'.

Dyma ichi ddau ymadrodd a gefais gan Robat ap Gwynfor gan ei fam Mrs Nel Williams (Tangraig) 'Sawl llathan o groen llyffaint neith glôs i gyw gwydd' ac un arall efo llathan, 'mae acar o dir yn werth llathan o gowntar'. Gallaf feddwl bod yr ail yn ymwneud â ffermwyr a siopwyr, ydych chi wedi eu clywed o'r blaen?

**Ambell Air ac Ymadrodd**

Mi glywsoch chi'r dywediad 'hen Ffasiwn 'fath â jwg', ond dyma i chi ddau ddywediad gwreiddiol a glywyd yn gymharol ddiweddar yn yr ardal i ddisgrifio cymeriad: "Mae o'n hen ffasiwn 'fath â beic" a "Mae o'n hen ffasiwn 'fath â silff."

**lwtsh**.
Ystyr hwn ydi dryswch a lol. "Paid â siarad lwtsh', meddan ni, hynny ydi dweud pethau dryslyd, gwirion a ffôl.
**lol-mi-lol**.
Mae o'n debyg i 'lwtsh', sef 'lol. Mae o'n golygu rhywbeth sydd ddim yn gweud synnwyr neu ddim yn wir. "Lol-mi-lol ydi'r cwbwl."
**ffunud**.
Mi ddefnyddiwn ni'r gair hwn pan fydd rhywun yn debyg iawn â rhywun arall – yr un fath neu efo'r un ffordd yn union. "Mae hi wedi mynd yr un ffunud â'i mam," meddan ni. Ffyrdd eraill o ddweud yr un peth ydi "Roedd o'r un sbit â'i dad pan oedd o'n fach" a "Mae hi'r un boerad â'i nain." O'r Saesneg y daw'r rhain.
**winthraw.** O'r gair 'ewinrhew' y daw hwn, sef niwed gan rew i fysedd, bodiau traed, trwyn a bochau. '*Frost-bite*' yn Saesneg.
**sgeg**. Mae'r gair hwn yn golygu ysgytwad neu ergyd. Pan fydd rhywun wedi derbyn llawdriniaeth fawr, mi fyddwn ni'n dweud "Mae o wedi cael dipyn o sgeg."
**sgyrl**. Mae hwn yn go tebyg ei ystyr i 'sgeg' – "Mae'r teulu wedi cael sgyrl ar ôl clywed y newydd drwg."
**homar**. Gair i ddisgrifio rhywbeth mawr – "Mi gafodd o homar o ergyd."
**gweld y bliws**. Ystyr y dywediad hwn ydi teimlo'n isel eich ysbryd. "Roedd hi'n gweld y bliws pan ddalltodd hi nad oedd hi ddim yn cael mynd ar wyliau wedi'r cwbwl."
**dominô**. Byddwn yn defnyddio'r gair hwn pan fo pethau wedi mynd 'o chwith' ac 'wedi mynd i'r pen' ac 'wedi mynd yn ffliwt' – "Mae hi'n dominô arno fo rŵan" hynny ydi ei bod hi wedi darfod arno fo o ran newid pethau. Dywediadau eraill efo'r un ystyr ydi "Mae hi **wedi canu** arno fo rŵan" a "Mae hi'n **jac-dô** arnyn nhw."
**cari-dyms**. Enw angharedig erstalwm ar bobol mewn dillad carpiog.
**clwt**.
A ninnau yn dod o Fethesda gwyddom fod clwt yn enw am ddarn o lechen, ond hefyd gall olygu darn o ddefnydd. Rhoddir glwt ar benôl babi rhag llanast, ac ers talwm defnydd oeddynt. Mae'r ystyr hwn bellach yn diflannu oherwydd natur y clytiau ac wrth gwrs nad oes angen eu golchi, ond eu taflu bellach. Os ydi rhywbeth yn edrych yn fudr yna dywedwn 'Mae angen taro clwt ar hwnna.' Gair arall am gadach a gawn yma, sydd yn ddarn o ddefnydd er mwyn llnau 'cadach llestri' 'cadach llawr'. Gallwch brynu cadachau rwan, ond ers talwm defnyddiwyd darnau o liain neu gynfas wely oedd wedi gweld dyddiau gwell. A chofiwch "Gwell clwt na thwll" pan arferid rhoi darn arall o ddefnydd i drwsio twll ar ddilledyn pan oedd dim modd prynu un newydd. Byddai rhai merched yn arbennig o fedrus gyda'i gwnio er mwyn gwneud y clwt yn anweledig bron. Os ydych 'ar y clwt' yna rydych heb ddim. Doliau clwt – wedi eu gwnïo fyddai gan blant ers talwm, a defnyddir 'ti rêl babi clwt' yn ddigon dirmygus.

**Cadw ieir**
Ers talwm, byddai llawer o bobol yr ardal yn cadw ychydig o ieir yn yr ardd gefn er mwyn cael wyau a chig. Ceiliog, yn hytrach na thwrci, fyddai'r arlwy ar ddiwrnod Dolig bryd hynny ar nifer dda o aelwydydd. Byddai'n rhaid dal y ceiliog a'i ladd, a'r dywediad oedd 'rhoi tro yn ei gorn gwddw fo.' Byddai sawl un yn cadw ieir dandi (*bantam*) – ieir sy'n llawer llai eu maint na ieir cyffredin.
Weithiau byddai cig hen iâr yn gorfod gwneud ar gyfer pryd, a dyna lle daeth y dywediad 'Mae'r hen iâr 'ma'n wydn fel gwadn esgid.' 'Cwenan' medda ni am iâr ifanc, ac yn y dyddiau afu yn cael ei ddefnyddio am ferch ifanc! Mae ieir yn clwydo, sef mynd i fyny ar y glwyd – darn o bren hir a thenau yn y cwt ieir – ac o fan'no y daeth un o'n dywediadau am fynd i'r gwely, "Mae hi'n bryd inni fynd i glwydo." Dywedir fod rhywun 'yr un fath â iâr' os bydd o neu hi yn tin-droi, yn ddi-sut a 'dim siâp' ar wneud rhywbeth sydd angen ei wneud. Pan fyddwn ni'n gynghori rhywun i fod yn bwyllog, yr hyn ddywedwn ydi 'Ara' deg mae dal iâr.' Pan fydd rhywun mewn cyflwr digalon a diflas, y dywediad ydi "Mae o fel iâr ar y glaw" neu "fel iârar law t'ranna."



Cofiwch gysylltu Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN ffôn 07443047642
maryeds@hotmail.co.uk

**TEMPLE MORRIS A'I FAB**
Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531 | 01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

**JOHN ROBERTS**
Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Cegin Karen
Cacennau, Peis a Sawrus
Te Prynhawn a Bwffe ar gael
@CeginKaren Tel: 07886 560781
Ebost / Email: ceginkaren@btinternet.com

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

Blwyddyn Newydd dda i holl ddarllenwyr y Llais. Bu'n flwyddyn fawr i lawer ohonon ni yma yn Nyffryn Ogwen ac yn flwyddyn llawn erchylltra ar draws y byd. Ein gobaith ni yw y bydd heddwch yn goleuo'r byd a bydd iechyd a gobaith yn ein harwain i well blwyddyn yn 2024.

**Merched y Wawr Cangen Tregarth**
Bu'r gangen yn dathlu'r Nadolig eleni yng Nghlwb Rygbi Bethesda, gyda chriw da o'r aelodau ym mwynhau Cinio Dolig ardderchog dan ofal Susan a Wayne, nos Lun, Rhagfyr 2. Pawb wedi mwynhau ac yn canmol y noson a drefnwyd gan Carol, Christine a Delyth. Diolch gennod ac i griw y Clwb Rygbi. Mor braf cael dathlu yma yn Nyffryn Ogwen. Ni fydd y gangen yn cyfarfod ym Mis Ionawr. Bydd cyfle i ymuno eto yn Festri Capel Shiloh Newydd, Nos Lun, Chwefror 5, pan ddaw Angharad Griffiths, Bethesda i sôn am ei gwaith 'Bwyta'n Iach gydag Angharad ' am 7.30 o'r gloch. Ymunwch hefo ni yn Shiloh!

**Profedigaeth**
Bu farw Helena Hughes, ar Ragfyr 19 yn Ysbyty Gwynedd yn 77 mlwydd oed. Roedd Helena wedi symud i fyw'n ddiweddar i Cae Garnedd, Penrhosgarnedd ond arferai fyw yn Pen y Bronnydd ac yn Maes Ogwen, Tregarth. Roedd yn briod i'r diweddar Hughie, yn fam i Delyth a Tecwyn ac yn Nain a Hen Nain i Sion, Carly, Sioned, Dion, Rhiannon, Elliw, Cai, Megan, Osian, Guto, Daniel, Mary a'r diweddar Rhys. Bu ei hangladd yng Nghapel Shiloh Newydd ar Ionawr 9 a chydymdeimlwn gyda'r teulu yn eu hiraeth ar ôl Helena.

Ar Ragfyr 26 daeth y newyddion trist am un arall o drigolion Tregarth fu farw sef Gwyneth Morris. Bu hi farw yn ei chartref yn Cae Garnedd lle roedd wedi symud yn ddiweddar o Maes Ogwen, Tregarth. Un a fagwyd yn Nhalybont oedd Gwyneth. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei phriod Maldwyn, ei phlant Ian, Eric a Rhian a'r holl deulu yn eu galar.

**Tân Mawr yn Nhregarth**
Brawychwyd yr holl ardal gan y tân wnaeth ddinistrio swyddfa y trydanwyr Jones a Whitehead yn y pentref, Dydd Iau, Rhagfyr 14. Er fod y tân wedi bod yn ddinistriol i'r adeilad da ydi dweud na chafodd neb anaf. Rydym yn anfon ein cofion at Iwan a holl staff a theulu y cwmni ar adeg mor hunllefus iddynt ac yn gobeithio'n fawr y bydd y gwaith yn mynd yn ei flaen fel arfer wedi'r digwyddiad. Mae'r cwmni yn rhoi gwaith i gymaint o hogia lleol a'n gobeithio yw y byddant yn parhau felly i'r dyfodol.

**Llwyddiant**
Fel pentref roeddem yn hynod falch o glywed am lwyddiant Nel Roberts, Gerlan, yn ennill Medal yr Ifanc yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen eleni. Mae Nel yn ddisgybl yn y chweched dosbarth yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Mae yn wyres i Peter Smith a'i briod, Bro Syr Ifor, Tregarth ac rydym yn ymfalchïo yn ei llwyddiant ac yn dymuno'r gorau iddi i'r dyfodol.

**Capel Shiloh Newydd, Tregarth**
Bydd yr Oedfaon yn Shiloh am 5 o'r gloch
Ionawr 21 – Geraint Roberts, Llandegfan
Ionawr 28 – Dr Ian Morris
Chwefror 4 – Eric Jones, Penrhosgarnedd
Chwefror 11 – R.O. Jones, Gaerwen
Chwefror 18 – Dr Alun Morton Thomas, Porthaethwy
Drws Agored pob bore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Dathlwyd y Dolig yn Shiloh Newydd gyda dwy oedfa.

Nos Sul, Rhagfyr 17, bu Oedfa Deulu, gyda nifer dda o aelodau a ffrindiau yn cymryd rhan. Yn eu plith roedd, Helen Wyn, Angharad Williams, Einir Williams, Val Ellis Jones, Gwenno Roberts, Eirwen Williams, Mali Non, Nanw Branwen, Anwen Griffiths, Gwenda Davies, Christine Morris Jones, Rhian Evans Hill, Myfi Celyn, Iona Rhys, Ffion Rowlinson ac Iris Harper.

Diolch o galon i bawb gymerodd ran yn y gwasanaeth hyfryd i ddathlu'r Nadolig yn ol yr arfer.

Bu'r ail wasanaeth ar Noswyl y Nadolig sef Oedfa Gymun yng ngofal ein gweinidog, Y Parchedig Ddr Ian Morris. Diolch iddo yntau am ein harwain at brif ystyr y Nadolig.


Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 | Pwllheli (01758) 703000



M.HUGHES A'I FAB 1969
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
garribryn@aol.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.



Marchnad Ogwen
Chwefror 10fed
Mawrth 9fed
9.30am - 1pm
Neuadd Ogwen
Bwydydd, Crefftau, Lleol
www.marchnadogwen.co.uk


# Marchnad Ogwen

Blwyddyn Newydd Dda a diolch i'n holl gwsmeriaid gan Stondinwyr Marchnad Ogwen!

Yn anffodus, oherwydd gwaith pellach yn Neuadd Ogwen, ni fu'n bosib cynnal Marchnad Ionawr. Fodd bynnag, byddwn yn ôl ym mis Chwefror, ac ar yr ail Sadwrn o bob mis fel arfer trwy'r flwyddyn. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu.

Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar facebook.


Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?
Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853) nev_hughes@btinternet.com

# YSGOL TREGARTH

Dyma ni ar ddiwedd tymor a blwyddyn brysur a llwyddiannus iawn eto yn Ysgol Tregarth. Dymuniadau gorau am flwyddyn newydd hapus i bawb yn Nyffryn Ogwen gan griw Ysgol Tregarth. Diolch hefyd i'r rhieni oll am eu cefnogaeth a'u cyd-weithrediad eto yn ystod y flwyddyn.

**Pêl-droed**
Cyfle'r bechgyn oedd hi tro yma yng nghystadleuaeth pêl-droed yr Urdd draw yng nghaeau Treborth. Y bechgyn wedi gwneud yn wych yn eu gemau grŵp gan ennill 2, colli 1 ac 1 gem gyfartal. Ond yn anffodus, dim ond un ysgol o bob grŵp oedd yn mynd ymlaen i'r chwarteri olaf. Y bechgyn wedi methu allan o un pwynt, ond pawb wedi gwneud yn ardderchog i ddod mor agos i'r chwarteri olaf.

**Teams 4 U**
Diolch i'r cyngor ysbrydol am drefnu ein bod yn cefnogi'r ymgyrch yma eto eleni. Diolch hefyd i'r holl rieni wnaeth gyfrannu at yr elusen, bydd y bocsys esgidiau yn llawn anrhegion yn siŵr o godi calon plant bach sy'n byw mewn tlodi neu ryfel y Nadolig hwn.

**Gwasanaeth Adfent**
Daeth y Parch Sara Roberts atom ar gychwyn mis Rhagfyr i gynnal gwasanaeth Adfent oedd yn ein hatgoffa o ystyr canhwyllau'r Adfent. Diolch am ddod atom unwaith eto ac am ein hatgoffa o wir ystyr y Nadolig.

**Sioe gerdd Ysgol Dyffryn Ogwen**
Cawsom y fraint o gael gwahoddiad gan Ysgol Dyffryn Ogwen i fynd draw i wylio eu sioe gerdd, Olifar. Roedd y sioe yn wych a'r plant wrth eu boddau yn gweld hen ddisgyblion ysgol Tregarth yn cymryd rhannau gwahanol yn y sioe. Yn amlwg roedd y plant wedi bod yn ymarfer yn galed dros yr wythnosau diwethaf ac roedd hynny'n dangos yn eu perfformiad. Diolch yn fawr i ysgol Dyffryn Ogwen.

**Cinio Nadolig**
Rhaid diolch unwaith eto eleni i Anti Shirley, Anti Fiona ac Anti Marian am baratoi cinio Nadolig blasus dros ben. Roedd yn ginio gwerth chweil a diolch i'r dair am yr holl fwyd blasus maent yn baratoi i ni yn ddyddiol.






**Pêl-rwyd**
Bu criw o enethod blwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd draw yng nghanolfan Brailsford. Enillodd y genethod 3/3 o'r gemau grŵp heb ildio'r un sgôr. Ymlaen I'r rownd cyn derfynol yn erbyn Cymerau , gan ennill 3-2 mewn gem agos ofnadwy. Yn anffodus, colli yn y rownd derfynol yn erbyn tîm cryf o Ysgol Y Gelli. Balch iawn o'r genethod am ddod yn ail mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn.

**Pantomeim – Peter Pan**
Cafodd disgyblion blwyddyn 1 i 6 fore braf iawn yn gwylio'r pantomeim yn Venue Cymru unwaith eto eleni. 'Treat' bach ar ôl tymor prysur o weithio'n galed ac ymarfer at ein cyngerdd.

**Disgo Nadolig**
Diolch i'r gymdeithas rhieni ac athrawon am drefnu disgo Nadolig i'r plant. Roedd yn ddiweddglo hyfryd i'r tymor gyda digon o ddawnsio a mwynhau heb anghofio'r sglodion a da-da!

**Raffl Nadolig**
Bu'r ysgol yn brysur yn gwerthu tocynnau raffl cyn y Nadolig a mawr yw ein diolch i'r holl gwmnïau lleol ac unigolion/rhieni wnaeth gyfrannu gwobrau. Diolch yn arbennig i 'Star Barber' ym Methesda, Londis Bethesda, Tesco Bangor a Bethesda, Caffi Lon Las, Caffi Seren, Gwallt 3D Tregarth, Greggs, Tropic by Mannon, Siop sglodion Mabinogion, MacLennan Construction a Meithrinfa Ogwen am gyfrannu gwobrau gwerth chweil at y raffl. Ymddiheuriadau mawr os ydym wedi anghofio diolch i unrhyw un! Diolch hefyd i'r rhieni a gwarchodwyr sydd wedi cyfrannu rhoddion.



**Cyngerdd Nadolig**
Roedd dydd Llun, Rhagfyr 18fed yn ddiwrnod mawr yn Ysgol Tregarth, sef diwrnod ein cyngerdd Nadolig! Addasiad o 'A Christmas Carol' oedd ein cyngerdd eleni a rhaid diolch i Miss Griffith am addasu a chyfieithu'r stori ar ein cyfer. Diolch a llongyfarchiadau i'r holl blant ar berfformiad arbennig o dda, mae yna actorion a chantorion arbennig yn ein plith.

**Pili Palas**
Bu llawer o edrych ymlaen ymysg y dosbarth meithrin a derbyn am ddiwrnod olaf y tymor… nid oherwydd ein bod yn cael gwyliau ond oherwydd ein bod yn cael mynd i weld Siôn Corn! Ffwrdd â ni i Pili Palas am fore bendigedig. Cawsom gyfle i weld yr anifeiliaid sydd yno, chwarae a chwerthin yn yr ardal chwarae ond yn bwysicach oll cael cyfarfod Siôn Corn. Cafodd pawb gyfle i gael gair gyda'r dyn ei hun cyn derbyn anrheg ganddo.

## Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
(01248 354280) ionawynbangor@gmail.com

**Damwain**
Gwellhad buan i Raymond Edwards o'r Pentref. Cafodd llawdriniaeth ar ei ben-glin ar ôl syrthio yn y tŷ.


HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL DROS ARFON

CYSYLLTWCH:
01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
hywel.williams.mp@parliament.uk
YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen
Plaid Cymru

Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru • 07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**


## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Cyfarchion Blwyddyn Newydd**
Blwyddyn Newydd Dda 2024 i bawb yn Nyffryn Ogwen ac i blant a staff ein ysgol eglwys, Ysgol Llandygai! Diolch i'r offeiriaid, y Parch Ddr Gareth Lloyd, y Parch Sara Roberts a'r Parch John Bleazard am eu gweinidogaeth a'u gofal amdanom dros 2023. Mae ein meddyliau a'n gweddïau gydag aelodau o'r gynulleidfa sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar neu mewn iechyd bregus ac hefyd gyda'r rhain sydd wedi colli anwyliaid yn ystod 2023.

**Gwasanaeth Naw Llith a Charol 2023**
Diolchwn yn ddiffuant i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Gerddi Penrhyn, am eu rhodd o goeden Nadolig hardd ac estynnwn unwaith eto ein diolch i'r Prif Arddwr, Gareth Crump am osod y goeden yn ei lle. Daeth tîm ffyddlon o lanhawyr a gosodwyr blodau rhai o'r ysgol neu o'r gymuned ehangach i baratoi yr eglwys ar Ragfyr 23ain felly 'roedd yr adeilad fel pictiwr i groesawu'r Nadolig. Roedd yr eglwys dan ei sang ar Rhagfyr 17eg ar gyfer ein gwasanaeth traddodiadol "Naw Llith a Charol " 2023 yng ngolau cannwyll. Y darllenwyr oedd Liz Bestwick, Rhian Llewelyn Jones, Edmond Douglas Pennant , Huw Llewelyn Jones, Jan Roberts, Reshma Silvester, Lorelei, Blodwen ac Annie Jones, Ann E.Williams a'r Ficer Y Parchedig Ddr Gareth Lloyd. Trefnwyd y gwasanaeth gan Rhian Llewelyn Jones a dewisodd Geraint Gill, ein organydd, ddetholiad hyfryd o garolau hen a llai-cyfarwydd. Ar Noswyl y Nadolig daeth cynulleidfa deilwng eto i Sant Tegai ar gyfer yr offeren hanner nos. Darllenwyd y llith Testament Newydd gan Huw Llewelyn Jones a'r Parch Ddr Gareth Lloyd yn cyhoeddi'r Efengyl yng ngeiriau ysbrydoledig St Ioan. Cawsom y pleser o wrando ar garol Plygain gan ein organydd Geraint Gill tra roedd y gynulleidfa yn cymuno.

**Raffl Santes Dwynwen**
Erbyn diwedd mis Chwefror, bydd enillydd lwcus o Raffl Santes Dwynwen wedi mwynhau cynnwys potel o siampên a gwobr rhamantus arall! Diolch i bawb o'r eglwys sydd wrthi yn gwerthu neu yn perswadio cyfeillion i brynu y tocynnau. Pwy fydd yr enillydd lwcus eleni, tybed?

**Newyddion Trist**
Ar Noswyl y Nadolig bu farw Rory Cramb o Wolsingham Swydd Durham, ŵyr 26 oed y diweddar Tony ac Hefina Chamberlain, Parc Penrhyn yn dilyn codwm oddi ar sgaffald. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at y teulu, ei fam a'i dad Suzi a Richard a'i frawd a chwaer, Ben a Lizzie.

**Diolch Arbennig**
Diolch yn fawr i aelodau a ffrindiau eraill yr eglwys yn y pentref ac yn yr ardal am eu cyfraniadau i Apêl Nadolig Eglwys Sant Tegai 2023. Bydd yr arian ychwanegol yn helpu i barhau gyda'r gwaith sylweddol o atgyweirio adeilad pwysig o'r Canol Oesoedd. Cafwyd ymateb ardderchog hyd yn hyn a braf oedd cael derbyn rhoddion hael gan bentrefwyr a ffrindiau o ardaloedd eraill sydd efallai ddim yn eglwyswyr ond yn barod i helpu gynnal ein adeilad hanesyddol mewn cyfnod o argyfwng neu angen.

**Gwasanaethau mis Ionawr a Manylion Cyswllt**
Ionawr 14eg Cymun Bendigaid 11yb
Ionawr 28ain Cymun Bendigaid 11yb
Gwasanaethau bore Mercher Ionawr 10fed ac Ionawr 24ain am 10.15, paned a sgwrs i ddilyn. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn!

Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen, gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

# Partneriaeth Ogwen



Blwyddyn newydd, her newydd? Ar gychwyn blwyddyn fel hyn, mae llawer ohonom yn chwilio am gyfleoedd newydd ar gyfer y misoedd i ddod.  Yma yn Nyffryn Ogwen mae hanes cyfoethog o trigolion yn gwirfoddoli yn y gymuned; i helpu eraill, i gynnal digwyddiadau a chymdeithasau, neu i weld cynlluniau cyffrous yn dwyn ffrwyth.

Mae sawl rheswm da dros wirfoddoli yn eich cymuned. Gall fod yn ffordd wych o gyfarfod pobl newydd. Mae'n gyfle i ddatblygu eich sgiliau a chael profiadau newydd. Byddwch yn cyfrannu i wella eich cymuned leol.

Dyma rhai o'r cyfleoedd sydd ar gael gyda Partneriaeth Ogwen flwyddyn yma. Beth am mynd amdani? Ysgrifennwch e-bost, codwch y ffôn neu dewch i gyfarfod. Anna@ogwen.org 01286 602131

## Cyfleoedd Gwirfoddoli

**Siop Ogwen:**
Siop Gymunedol ar Stryd Fawr Bethesda yn arbenigo mewn llyfrau Cymraeg ac yn gwerthu nwyddau gan grefftwyr lleol a Chymraeg.

Prif Ddyletswyddau
- Croesawu a chynorthwyo Cwsmeriaid
- Trefnu a labelu nwyddau
- Nodi a derbyn archebion

**Swpar Chwaral:**
Mae Swpar Chwaral yn is brosiect Hwb Ogwen, yn cynnig cwmpeini, bwyd cynnes a maethlon am ddim i bawb yn y gymuned.
Prif Ddyletswyddau
- Bod yn rhan o dîm croesawgar a chyfeillgar
- Croesawu a chymdeithasu gyda'r mynychwyr
- Cyfleoedd i goginio a derbyn hyfforddiant
- Glanhau a chadw offer

**Garddio**
Rydym yn cynnal a chadw 3 gardd gymunedol o fewn ardal Dyffryn Ogwen, Gardd Ffrancon, Tan Tŵr a Llys Dafydd.

Prif Ddyletswyddau
- Cymdeithasu
- Chwynnu a thacluso
- Cynnal gerddi cymunedol
- Tyfu a phlannu bwyd at fudd y gymuned
- Cyfleoedd hyfforddiant os yw'n berthnasol

**Gyrru**
Mae gan Bartneriaeth Ogwen fflyd o 4 cerbyd trydan at ddefnydd y gymuned a chefnogi gwaith y Bartneriaeth.

Prif Ddyletswyddau
- Defnyddio ein cerbydau trydan at ddefnydd y gymuned
- Cludiant ar gyfer apwyntiadau iechyd
- Cludiant Ysgolion lleol
- Cyfleoedd hyfforddiant os yw'n berthnasol

**GwyrddNi**
Grwp Gŵyl Hinsawdd – Nos Fercher 24ain Ionawr – 17:30 – Llawr Top Canolfan Cefnfaes
Grwp Cartrefi Ynni Effeithlon – Dydd Sadwrn 27ain Ionawr – 13:00 Penygroes (Gallwn drefnu Trafnidiaeth os oes angen)
Grwp Ysgrifennu – Nos Iau 1af Chwefror – 17:30 – Llawr Top Canolfan Cefnfaes
Grwp Tyfu Bwyd – Nos Fawrth 6ed Chwefror – 16:00 Llawr Top Canolfan Cefnfaes

Does dim cyfarfodydd wedi drefnu i'r canlynol ond byddwn wrth ein bodd yn clywed gennych chi os oes gennych diddordeb yn y meysydd hyn; Gweithlu Cyd-weithredol, Parc Cinetig, Gwefan gweithredoedd cymunedol, Grid trydan cymunedol.

**Bu llawer o drigolion y dyffryn yn gwirfoddoli hefo Partneriaeth Ogwen yn 2023, dyma rhai o'u hanesion.**

**Angharad**
Fe wnes i symud o Fangor i ardal Dyffryn Ogwen dros 20 mlynedd yn ôl gyda fy nheulu i fagu'r plant a dwi wedi byw yma ers hynny. Rwyf wedi bod yn gwirfoddoli gyda Swpar Chwaral ar brynhawniau Dydd Mercher. Rwy'n hunan gyflogedig ac roeddwn yn chwilio am rywbeth i wneud i gyfrannu at y gymuned.

Rwy'n mwynhau coginio ac yn hoff o greu ryseitiau gyda unrhyw beth sydd yn y cwpwrdd! Sydd yn wych wrth i mi wirfoddoli gyda Swpar Chwaral i greu prydau maethlon gyda rhoddion o fwyd gan Glwb Bwyd Dyffryn Gwyrdd. Mae gwirfoddoli yn y gymuned nid yn unig wedi helpu fy Nghymraeg ond mae hefyd wedi fy helpu i greu cysylltiadau newydd yn lleol ac adnabod yr holl bethau gwych sydd yn digwydd yn ein cymuned. Mae gwirfoddoli yn dod gyda chymaint o gyfleoedd yn cynnwys hyfforddiant i ddatblygu sgiliau newydd.
Dwi'n falch iawn o'r cyfle i wirfoddoli. Mae'n braf iawn cael creu cysylltiadau a chael bach mwy o fywyd cymdeithasol! Mae'r cyfle hefyd wedi rhoi amser i mi i ffwrdd o fy musnes ac wedi rhoi cyfle i mi feddwl am yr hyn rydw i eisiau ei wneud yn y dyfodol.

**Alun a Jan**
Mae'r ddau ohonom yn wreiddiol o ardal Dyffryn Ogwen ac yn falch o gefnogi prosiectau cymunedol yr ardal. Mae'n bleser cael gwirfoddoli yn ein cymuned, cyfarfod pobl newydd a hen gyfeillion! Mae'r gwaith gyrru cymunedol hefyd wedi golygu ymweld â llefydd newydd yn ein bro. Ein prif reswm dros wirfoddoli yw i fod o gymorth i drigolion yr ardal a chael mwynhau cyfarfod pobl newydd.
Rydym wedi gwirfoddoli gyda sawl prosiect dros y blynyddoedd yn cynnwys gyrru i brosiect Cadwyn Ogwen, helpu yn siop gymunedol Siop Ogwen a helpu efo sesiynau casglu sbwriel. Mae Al hefyd yn gwirfoddoli gyda'r Gofod Gwneud oherwydd ei brofiad o weithio gyda'r peiriannau ac hefyd ei brofiad yn rhedeg busnes gwaith llechi ei hun. Mae'r gwaith gwirfoddol gyda'r Gofod Gwneud wedi cynnwys cynnal sesiynau creu gyda'r ysgolion lleol. Mi fysa Jan a finnau'n awgrymu i unrhyw un wirfoddoli. Rydym yn mwynhau yn arw ac mae'n gyfle gwych i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned.

**GwyrddNi**
Mae GwyrddNi wedi bod yn gweithio hefo trigolion Dyffryn Ogwen ar Cynllun Gweithredu Cymunedol mewn ymateb i newid hinsawdd. Rydym nawr yn gweithio ar wireddu'r cynlluniau yma. Os oes gennych diddordeb mewn unrhyw un o'r meysydd canlynol e-bostiwch chris@ogwen.org, ffoniwch 07766793945 neu dewch i gyfarfod. Cewch mwy o fanylion ar gwefan gwyrddni.cymru



# CHWILAIR



## Ymgeiswyr Etholiadau Conwy 1950 – 2005

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | B | E | T | T | Y | W | I | L | L | I | A | M | S | H | R | I |
| E | J | E | L | C | M | B | S | I | L | V | A | N | J | O | N | E | S | E | V |
| B | H | X | L | J | U | I | S | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M | M | D |
| W | H | U | Z | W | P | A | U | L | R | O | W | L | I | N | S | O | N | Y | M |
| X | V | A | E | D | Y | D | N | A | P | A | U | S | Q | U | S | O | F | R | R |
| P | Y | Q | Z | M | G | N | R | H | C | U | E | M | W | N | O | Y | R | P | I |
| A | S | Z | U | T | L | F | J | D | X | E | U | P | W | R | H | C | Q | R | H |
| W | E | H | O | Y | E | Y | E | O | R | G | E | O | M | H | E | P | T | I | T |
| C | B | B | C | U | U | J | N | N | N | P | L | S | T | M | I | V | V | C | D |
| C | B | B | F | R | F | O | E | H | G | E | J | T | V | I | I | R | R | E | X |
| I | M | H | T | T | O | W | S | K | O | O | S | R | P | W | R | C | M | K | C |
| B | O | R | C | X | O | V | R | Y | H | O | S | E | T | M | R | E | F | Y | J |
| D | Z | H | B | B | C | W | O | S | C | R | S | B | A | I | X | N | I | L | X |
| J | J | M | N | B | W | T | E | X | M | D | X | O | K | F | U | P | C | Q | Y |
| O | I | A | L | F | E | R | Z | Q | R | O | C | R | N | T | D | G | W | S | L |
| Z | O | S | T | R | E | B | O | R | N | Y | W | R | E | B | E | A | J | K | J |
| I | C | S | A | M | O | H | T | S | I | L | L | E | D | D | Y | F | A | D | L |
| N | S | A | M | O | H | T | R | E | T | E | P | G | L | R | V | O | G | J | P |
| W | P | N | A | W | I | D | D | Y | F | A | D | O | G | S | O | W | J | J | Q |
| U | L | F | S | V | T | X | E | U | G | H | S | R | L | Z | E | A | F | X | I |

Yn y Chwilair mis yma MAE ENW DEUDDEG YMGEISYDD YN ETHOLIADAU CONWY RHWNG 1950 A 2005. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 26 Ionawr. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

**Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

Mae fy niolch yn fawr iawn y mis yma i Alan Davies, Porthaethwy, am awgrymu'r testun ar gyfer y Chwilair. Nid oes cyn gymaint o bwysau arnaf i ddod o hyd i destun wrth dderbyn awgrymiadau ar gyfer y Chwilair.

Roeddwn yn tybio fod testun Chwilair Rhagfyr yn un digon anodd, ac mae hynny yn profi fy mod digon agos i'm lle, gan mai dim ond chwech ateb dderbyniais drwy flwch y post, ac ond un ohonynt wedi darganfod yr holl atebion, sef Mr Emrys Griffiths, Rhosgadfan.

**Dyma atebion Chwilair Rhagfyr**: Ataliwr Brenhines; Bocs epil; Brenhines; Cnewyllyn; Cŵyr gwenyn; Diliau Mêl; Fegin; Gweithiwr; Gwenyn diog; Lloft Fêl; Neithder; Paill.

**Enillydd Rhagfyr oedd**: Emrys Griffiths, 5 Llwyn, Rhosgadfan, Caernarfon LL54 7HN.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i unarddeg o'r atebion**: Nia Wyn Bagnall; Rosemary Williams; Doris Shaw; Elizabeth Buckley; a Judith Hughes.

**Blwyddyn Newydd dda i holl ddarllenwyr y Llais.**

# Côr y Penrhyn
## gyda Derfel Roberts





**Plant Ysgol Llanllechid ar y llwyfan yn Pontio gydag aelodau Côr y Penrhyn i gyd yn cael eu harwain gan Ms. Delyth Humphreys**

**Plant Ysgol Llanllechid yn disgleirio**
Cyn y Nadolig bu perfformiadau yn Henllys, Llandudno, Betws y Coed ac ym Mangor ddwywaith. Fel yr adroddwyd y mis diwetha' cyngerdd codi arian i Hosbis Dewi Sant yn y Gadeirlan oedd un o'r rhai mwyaf. Wedi dweud hynny efallai mai'r cyngerdd mwyaf cofiadwy i lawer oedd hwnnw a gynhaliwyd gyda phlant Ysgol Gynradd Llanllechid yn theatr Pontio ar Nos Fawrth Rhag 19. Roedd y theatr yn llawn o rieni, teidiau a neiniau a chyfeillion a mwyniant pur oedd gwrando ar y plant o dan arweiniad Ms Delyth Humphreys yn canu gydag arddeliad garolau Nadolig newydd ac eraill mwy cyfarwydd.

Roedd derbyn gwahoddiad yr ysgol i gyd ganu mewn rhan o'r rhaglen gyda'r plant yn wefreiddiol a rhaid llongyfarch a diolch i holl staff yr ysgol am eu cyfraniad a'u hanogaeth i'r disgyblion.

Cyfrannwyd at yr adloniant gan Gôr y Penrhyn a roddodd gyflwyniad o nifer o'u caneuon ac fel arfer aeth '*Tshotolosa*' a '*Gwinllan a Roddwyd*' i lawr yn arbennig o dda efo'r gwrandawyr.

**Colli cyn-aelod – Dewi Davies**
Dros y Nadolig daeth y newydd am farwolaeth y diweddar Dewi Ll. Davies o Benrhosgarnedd, Bangor, a fu'n aelod o'r côr am rai blynyddoedd. Roedd Dewi wedi bod yn swyddog yn Adran Traffig Heddlu Gogledd Cymru am flynyddoedd, a dringodd i swydd Prif Arolygydd yn y gwaith hwnnw.

Brodor o Gwmlline ger Machynlleth oedd Dewi, ac Olwen ei briod o Gemaes y pentref nesaf at Gwmlline. Bu'r ddau yn byw ym Mangor am y rhan helaethaf o'u bywyd ac yno y magwyd eu plant, Menai a Rhian. Roedd Dewi yn weithgar iawn ymhob cymdeithas roedd o'n rhan ohoni. Bu'n ddiacon yng Nghapel Annibynnol Pendref a gwnaeth lawer o waith dros yr achos hwnnw.

Efallai mai prif ddiddordeb Dewi y tu allan i'w ddyletswyddau gwaith oedd golff. Bu'n dal nifer o swyddi cyfrifol yng Nghlwb Golff Sant Deiniol oherwydd bu yn ei dro'n gapten, yn gadeirydd, yn ysgrifennydd ac yn dirmon. Mae'n amheus iawn a gyfrannwyd mwy gan unrhyw aelod arall o'r clwb dros yr hanner can mlynedd diwethaf.

Felly hefyd ei gyfraniad i'r côr. Aelod o'r ail denoriaid oedd o ond pan oedd galw am gymorth mewn unrhyw beth, roedd Dewi'n barod i roi ei ysgwydd o dan y baich. Yn ystod y cyfnod pan oedd y côr yn cynnal diwrnod cystadleuaeth golff Côr y Penrhyn bu Dewi'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb o drefnu popeth yn ddiseremoni a heb achwyn. Mwynhaodd sawl taith gyda'r côr a bu yn yr Almaen gyda'r côr ar un o'r ymweliadau hynny.

Bydd ymadawiad Dewi Davies yn ergyd drom i gylch Bangor ac Ogwen a chydymdeimlwn yn ddwys gyda'i deulu niferus yn Nyffryn Ogwen a Bangor a hefyd ym Mhowys a Dyfed.

**Marw aelod newydd – Gareth Jones (Bow)**
Dros y Nadolig hefyd daeth y newydd trist am farwolaeth Gareth Jones, (Bow), gŵr ifanc oedd yn frodor o'r Bala. Bu ei golli o glefyd y cancr ac yntau ond 43 mlwydd oed, yn dristwch mawr i'w wraig, Gwenllian, ac i bawb o'i deulu a'i ffrindiau.

Ganwyd Gareth yng Nghapel Coch, Môn ond symudodd y teulu i fyw yn Y Bala pan oedd Gareth yn dair oed. Tyfodd i fyny ym Mhenllyn gyda llu o ffrindiau a bu ar un cyfnod yn chwarae rygbi i'r Bala. Diddordeb mawr arall ganddo oedd cerdded mynyddoedd a bu ef a Gwenllian yn cerdded copaon uchaf Eryri ac yn ymweld â sawl gwlad dramor gan gynnwys Ffrainc, Sbaen a Chanada.

Ymunodd Gareth â'r côr yn 2018 ac fe gymerodd ran mewn nifer o berfformiadau a gyflwynwyd gan Gôr y Penrhyn, yn cynnwys rhai perfformiadau mawr a phwysig e.e. perfformio yn y chwarel pan gynhaliodd Mike Peters gyngerdd mawr yno i godi ymwybyddiaeth ac arian tuag at Ymchwil i Gancr. Yr eironi mawr ydy mai dyna'r union glefyd y bu Gareth ei hun yn ysglyfaeth iddo'n ddiweddarach.

Cafodd ganu gyda'r côr yn Glastonbury ac yn Blackpool pan fu perfformiad gyda Damon Albarn a'i fand, GBQ, yn y lleoedd hynny. Cafodd y cyfle hefyd i fod gyda'r côr yn Stadiwm y Mileniwm pan fu'n rhan o'r perfformiadau cyn rhai o'r gemau rygbi rhyngwladol.

Roedd o'n falch iawn o'i aelodaeth yn y côr, gan iddo ddatgan fwy nag unwaith bod y côr wedi bod yn sylfaen iddo ddod i adnabod yr ardal, a'i diwylliant, a hefyd i wneud ffrindiau newydd ymhlith yr aelodau eraill.


Yn 'Cymeriad y Côr' yn Llais Ogwan rhyw ddwy neu dair blynedd yn ôl gofynnwyd iddo beth oedd ei brif ddiddordebau a'i ymateb oedd, "Rygbi, cerdded, Rygbi, coginio, Rygbi, a pheint tra'n gwylio Rygbi"!

Mae cydymdeimlad holl aelodau Côr y Penrhyn â'i briod a'r teulu ynghyd â'i ffrindiau oll yn eu profedigaeth. Bu ei arwyl, a fynychwyd gan nifer fawr o gyfeillion a chydnabod, yn amlosgfa Bangor fore Sadwrn 6 Ionawr a thraddodwyd y deyrnged gan Dilwyn Morgan, y cyflwynydd a'r digrifwr enwog. Cwsg yn dawel Gareth.





# CROESAIR



## AR DRAWS

6 Dyheu dwys am gael gweld (7)
7 Clwt sychu (5)
8 Geiriadur Cymraeg diweddar 2016 (5)
10 Mae'n fwy na drama am ŵyl yr ymprydio i Fwslemiaid (7)
12 Digwydd ddwywaith y flwyddyn i'r wennol (6)
13 '- - - - - - , arswydus swydd', hen air am waith gweinidog (6)
15 Dyffryn Mabinogaidd yn Arfon (6)
17 Cain, yr hynaf (3,3)
20 Yn fy ngwendid rhaid cael Susan i'm sadio yn gadarn (7)
22 Ychydig bach o wenith ynghanol y bara i gael llawer iawn (5)
24 Heb nerth a fel 20 Ar Draws (5)
25 Rhoddwyd hon i'm gofal am mai fy ngwlad yw, medd SL (7)

## I LAWR

1 Efallai fod y pluog yn dewis bwydo (4)
2 Swnio fel lle hynafol i groesi afon i'r de o Gonwy (6)
3 Rhan o'r fferm (5)
4 I'r rhai gâr ddarllen llyfr mae'n fuddiol weithiau i gael cip ar hwn (6)
5 Tybed fod ganddo dŷ haf ym Madrid (4)
8 Amser ffarwelio â'r hen flwyddyn a chroesawu'r newydd (7)
9 Mwyar ym Meirion ac i'r de (5)
11 Dymuno un dda yn yr hwyr (7)
14 Mae tair ohonynt yn nrama enwog Chekhov (5)
16 Un bedol ar y diwedd a'r holl waith yn atgas a chymysglyd (6)
18 Aeth arth o gwmpas tai gan beri poen angerddol (6)
19 Tin-droi a dilidalio (5)
21 Disgybl a'i go' ar chwal (4)
23 Mae angen tacluso'r einion (4)

Atebion erbyn 2ail Chwefror 2024 fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Ionawr', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

## ATEBION CROESAIR RHAGFYR 2023

**AR DRAWS** 1 Llwglyd, 4 Gwynt, 8 Iorwg, 9 Ystwytho, 10 Adolygu, 11 Lludw, 12 Rio, 14 Difa, 15 Edau, 18 Ust, 21 Enlli, 23 Oncoleg, 25 Ymyrryd, 27 Ionor, 27 Achosi, 28 Utgorn
**I LAWR** 1 Lleihau, 2 Gorfodi, 3 Ysgwyddau, 4 Guto, 5 Ymylu, 6 Trobwll, 7 Cysur, 13 Oed Crist, 16 Arlunio, 17 Llenydda, 19 Tolldy, 20 Y Goron, 22 Llwyddo, 24 Trai

10 Ar Draws oedd y bwgan mawr y tro yma. Yr ateb cywir oedd 'adolygu', ond llawer ohonoch wedi cynnig 'arolygu'. Gall un llythyren fach o wahaniaeth fod yn ddigon i newid ystyr weithiau.

Hefyd cafwyd 'lleinau' yn lle 'lleihau' (1 i Lawr), ac yn anffodus yr oedd un croesair heb ei gwblhau.

Gan y canlynol y cafwyd atebion hollol gywir : Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Medi Michael, Bangor; Gareth Oliver, Tregarth; Iona Williams, Llanddulas; Judith Hughes, Llangoed; Gaynor Elis-Williams, Ann Morris, Bethesda; Dilys W. Griffith, Abergele; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; M. A. Jones, Llanllechid

Yn cipio'r wobr a'r clod y mis yma y mae Jean Vaughan Jones, 12 Hafod Lon, Rhiwlas, Bangor, Gwynedd LL57 4GD. Da iawn chi.


BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS

01248 361044
07771 634195
Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partion ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Londis
BETHESDA
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

L. STURRS A'I FEIBION
SEFYDLWYD YN 1965
ADEILADWYR
HEN IARD STESION, FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

# Natur o'n Cwmpas

## Pryf lludw



Creadur bach diddorol ydy'r pryf lludw cyffredin (*Oniscus asellus*). Mae sawl enw arall arno – gwrachan ludw, gwrach y lludw, pryf tamp, pryf tamprwydd, mochyn coed, gwrachan y coed, pryf twca. Mae'r enw 'pryf twca' yn un diddorol. Mae gan y creadur hwn ysgerbwd allanol ar ffurf rhannau fel 'platiau' arfwisg, felly tybed a ydy'r enw'n cyfeirio at y ffaith fod y rhannau ar draws ei gefn fel twcau, sef plygiadau neu bletiau?

Er bod 'pryf' yn rhan o'i enw, nid pryf fel y cyfryw mohono ond cramennog y tir, ac yn rhyfedd iawn mae o'n perthyn yn agosach i'r cranc a'r berdysen (*shrimp*). Mae 30 math o bryf twca yng ngwledydd Prydain, ac maen nhw'n amrywio o ran lliw – llwyd, brown a phinc.

Hirgrwn ydy ffurf ei gorff, ac yn ei lawn dwf bydd ei hyd tua 15mm (tua ½ modfedd). Hyd oes pryf lludw ar gyfartaledd ydy dwy flynedd, ond mae tystiolaeth bod rhai'n byw i fod yn bedair oed.

Mae ganddo deimlyddion main yn ymestyn o'i ben. Organau synhwyro ydy'r rhain ac mae iddyn nhw sawl swyddogaeth wrth gasglu gwybodaeth sy'n hanfodol iddo – adnabod ffurf a gwead deunydd drwy gyffwrdd; adnabod gwres, sain (dirgryniad) a symudiad aer; ogleuo; a blasu. Mae ganddo 14 o goesau, sef saith pâr, ac mae'r pâr sydd ar flaen ei gorff hefyd yn organau synhwyro fel y teimlyddion, ac yn casglu gwybodaeth drwy gyffwrdd.

Ei gynefin ydy mannau llaith, tywyll a chymharol gynnes, a dim ond codi carreg neu droi'r domen yng nghornel yr ardd sydd ei eisiau inni weld nifer ohonyn nhw'n glwstwr efo'i gilydd. Maen nhw'n osgoi'r heulwen rhag i'w cyrff sychu. Eu bwyd ydy planhigion marw a phryfed mân.

Ar dro, fe'u gwelir o fewn ein tai. Gan ei fod yn greadur mor fach a gwydn, mi fedr ymwthio drwy graciau yn y sylfeini, y muriau neu'r to i gael mynediad. Efo pob pâr o goesau ynghlwm wrth wahanol rannau o'r ysgerbwd allanol mae'n medru troi bob sut er mwyn mynd drwy dyllau ac agennau cyfyng.

Yn ddiddorol iawn, mae un math o bryf lludw sy'n unigryw i Gymru, ac sydd i'w ganfod mewn un rhan o'n gwlad yn unig, sef ar glogwyni'r glannau rhwng Aberogwr a Sain Dynwyd ym Mro Morgannwg. Yn briodol iawn, cafodd pryf lludw Bro Morgannwg yr enw gwyddonol *Metatrichoniscoides celticus*, gan gydnabod mai 'Celt' ydy o!

### Wyddech chi..?

Dyma i chi enwau lleol Dyffryn Ogwen ar rai o'n hadar, efo'r enwau safonol neu enwau cyffredin eraill mewn cromfachau:

iâr fynydd (grugiar)
cenlli goch (cudyll coch)
asgell arian (ji-binc/asgell fraith)
aderyn llwynog (mwyalchen y mynydd)
aderyn naw (troellwr)
pigfelen (mwyalchen)
gwalch glas (hebog tramor)
asgell aur (nico)
gwas y gog (corhedydd y waun/pibydd y waun)
mwyalchen y dŵr (bronwen y dŵr/trochwr)
bronfraith fawr (brych y coed)
llwyd y berth (llwyd y gwrych)
mulfran (bilidowcar)
melyn yr eithin (bras melyn)

*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.*

# Nyth y Gân

### ARLUNYDD MURDDUNOD

Edrych a wnâi wrth grwydro; at weunydd
  Fe'i tynnwyd i baentio
Ei luniau gwerth chweil yno
O hen dai heb arnynt do.



### Y DYDD BYRRAF

Digalon ydyw gwylio dy gynnar
  A di-gân noswylio;
Lle unig, tywyll heno
Â golau haul o dan glo.

### YR HEN CHWARELWYR

Gweithwyr y llechfaen oeddynt,
A chaled oedd eu gwaith
O dynnu'r graig o'r clogwyn
A'i gyrru ar ei thaith.

Mae'r llechi gaed o'r fargen
Ar doeau ein tai ni,
A'r llafur o'u cael yno
Fu'n fawr, fel gwyddoch chi.

Gwywedig fu hen weithwyr
Ein dyffryn ers cyn co',
A heddiw parch a haeddant
Gan bawb o fewn y fro.

### DEFAID MEWN NIWL

Y cynnar niwl lenwa'r nef, yn taenu
  Fel ton uwch ein pentref;
O hen braidd ni chlywir bref,
Hwy wyddant sut mae goddef.

**Dafydd Morris**


**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**

Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853) nev_hughes@btinternet.com

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Gradd Meistr**
Llongyfarchiadau mawr i Hannah Siriol Morgan. Park Villa, Lôn Newydd ar ennill Gradd Meistr LLM mewn Hawliau Dynol o Brifysgol Caeredin. Mae Hannah bellach yn gweithio yng Nghaerdydd i Gomisiynydd y Gymraeg.

**Llwyddiant Cerddorol**
Llongyfarchiadau i Caio Euron Jones, 'Hen Walia' Rhos y Coed, ar lwyddo yn ei arholiad piano Gradd Un yn ddiweddar. Hyfforddir Caio gan Gerwyn Llwyd, Maes y Garnedd a threfnwyr yr arholiad oedd Bwrdd Cysylltiol yr Ysgolion Cerdd Brenhinol. Llwyddodd Caio hefyd i ennill y wobr gyntaf yn yr unawd piano yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.

**Cyrraedd y Cant**
Llongyfarchiadau i Mrs Megan Wyn Phillips, gynt o Rês Gordon, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ar yr 11eg o Ragfyr. Mae hi wedi ymgartrefu ym Mhlas Ogwen, a chafwyd diwrnod pleserus yn dathlu'r achlysur arbennig. Pob dymuniad da i chi, Megan.




## Yr Eglwys Unedig

**Oedfaon**
Bu'r mis diwethaf yn dra gwahanol o ran gwasanaethau arferol – cynhaliwyd oedfa yng ngofal y merched, a Gwasanaeth Nadolig y plant. Diolch i'r merched am rannu eu hoff emynau gyda ni, ac i'r plantos am eu cyfraniad gwerthfawr hwythau.

**Gwasanaeth Nadolig Cymunedol**
Yn ôl ein harfer ers rhai blynyddoedd bellach, cynhaliwyd oedfa arbennig nos Sul, Rhagfyr 17. Hyfryd oedd gweld cynulleidfa hynod o deilwng wedi dod ynghyd i ddathlu'r Ŵyl, a threuliwyd orig arbennig iawn yng nghwmni Côr y Penrhyn ac unigolion o blith oedolion ac ieuenctid y Dyffryn. Braf hefyd oedd clywed y carolau'n cael eu canu gydag arddeliad. Fe hoffai Menai ddiolch o galon i'r canlynol am eu cyfraniadau gwerthfawr: Harri Bale; Frances Davies; Gwenda Davies; Owain Arwel Davies; Y Parchedig Nerys Griffiths; Gwenno Hodgkins; Joe Hughes; Neville Hughes; Barbara Owen; Dilwyn Owen; Buddug Watcyn Roberts; Gwenno Roberts; Y Parchedig Sara Roberts; Beti Rhys; Andrew Thomas; Nerys Williams. Gwnaed casgliad tuag at y Groes Goch ar ddiwedd yr oedfa, a chodwyd £350.00 – diolch yn fawr i'r gynulleidfa am eu haelioni.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Dafydd ac Enid Roberts ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf! Croeso arbennig i Elinor Iwan, merch fach Catrin ac Iwan Williams.

**Pen-blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau mawr i Mrs Megan Phillips, gynt o Res Gordon, ond sydd bellach wedi ymgartrefu ym Mhlas Ogwen, ar ddathlu ei phen-blwydd yn gant oed yn ddiweddar. Cofion annwyl iawn atoch, Megan.

**Yr Ysgol Sul**
Cynhaliwyd gwasanaeth y plant ar Ragfyr 10fed pan fu'r plant yn actio stori 'Yr Anrheg Nadolig'. Dyma lun o'r plant yn cymryd rhan yn eu Gwasanaeth Nadolig y mis diwethaf.



O'r chwith i'r dde: Guto, Mared, Eiry, Myfi, Cadi, Awel, Illtud, Ceian a Tomi

**Pererindod**
Yn ddiweddar bu'r Parchedig Nan Powell-Davies yn dilyn llwybr y Pererinion i Aberdaron, gan alw yng Nghapel Jerusalem am baned a sgwrs gydag aelodau o'r Capel ac Eglwys Glanogwen. Codwyd elw o £201.50 tuag at Gymorth Cristnogol yn ystod y bore – diolch am gyfraniadau hael.

**Llenwi'r Cwpan**
Hyfryd yw gweld cynifer yn troi i mewn am sgwrs a phaned ar fore Iau, a'r cyfle i roi'r byd yn ei le!

**Y Plygain**
Cynhelir ein Gwasanaeth Plygain nos Sul, Ionawr 21, am 6 o'r gloch yn y Festri Fach. Croeso mawr i unrhyw un sydd yn awyddus i gymryd rhan – gadewch i Walter wybod, os gwelwch yn dda - ffôn 601 167.

**Cyhoeddiadau'r Sul – am 10 y bore oni nodir yn wahanol:**
Ionawr 21: Gwasanaeth Plygain (6)
Ionawr 28: Gweinidog
Chwefror 4: Y Parchedig Cledwyn Willims
Chwefror 11: Y Parchedig Mererid Mair
Chwefror 18: Gweinidog
Chwefror 25: Y Parchedig Ddoctor Elwyn Richards (5)

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb sydd yn teimlo'n fregus y dyddiau hyn, gan obeithio y daw pethau'n well yn fuan i chwi.

**Cyfarchion**
Blwyddyn newydd dda i bawb ohonoch!

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Clwb Cant yr Apêl**
**Enillwyr mis Rhagfyr:**
£30 – Rhif 42 – Linda Parker, Gwel y Nant
£25 – 27 – Gillian Williams, Bangor
Llongyfarchiadau i'r enillwyr!
Tynnir y gwobrau lwcus yn yr Eglwys ar y bore Mercher olaf o bob mis yn ystod y baned; croeso cynnes i bawb.

**Raffl Nadolig**
Diolch i bawb a gyfrannodd i'r Hamperi o nwyddau i'w rafflo er budd yr Apêl, ac i bawb a gefnogodd yr achos trwy godi £150 at yr Apêl.
Dyma'r enillwyr:
1. Gwenllian, Rhes Ogwen
2. Gwyn Burgess, Coetmor
3. Ann Morris, Ffordd Ffrydlas
4. Bronwen Jones, Braichmelyn
5. Gwilym Owen, Rhos y Nant

**Bore Coffi**
Cynhelir Bore Coffi er budd yr eglwys ar Ddydd Sadwrn, Chwefror 24 rhwng 10.00 a 12.00. Y lleoliad y tro hwn fydd Festri Capel Jerusalem, gan fod nifer yn teimlo fod lleoliad ar y gwastad yn mynd i fod yn fwy hwylus.

**Amlenni Rhodd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau dros y flwyddyn trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

Mae sawl un wedi holi ynglŷn a thalu trwy Drosglwyddiad Banc os yn methu dod i'r gwasanaethau. Rhif Cyfrif Glanogwen yn y Banc Natwest yw 51-61-28 06306284. Gellir gwneud un taliad neu sefydlu Taliad Sefydlog (Standing Order) ar gyfer bob mis neu unrhyw batrwm arall.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael neu'n gaeth i'w cartref, hefyd i bawb sydd yn galaru am berthnasau annwyl. Cofiwch adael i ni wybod os am gael ymweliad neu Gymun Cartref.

**Gwasanaethau**
Pob Bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid, heblaw am Sul cyntaf y mis pan mae Gwasanaeth Teuluol am 3 y prynhawn.
Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.

Pob nos Fercher am 7yh – Awr dawel i gau'r byd a'i broblemau allan

Croeso cynnes fel arfer i bawb i'r holl wasanaethau.

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu a'r ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ar 01248 361521 ar unrhyw fater yn ymwneud a'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd. Hefyd mae'r Parchedig Sara Roberts yn offeiriad cynorthwyol ar gael ar 07967652981.


SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus


# Gair neu ddau

### John Pritchard

## Dymuniad, galwad a gweddi

'Blwyddyn Newydd Dda i chi.' Nid datganiad mo'r cyfarchiad hwn. Yn ei chlytiau y mae'r flwyddyn newydd o hyd, ond pwy ŵyr beth fu hanes ei dyddiau cynnar i'r un ohonom cyn y gwêl y rhifyn hwn o *Llais Ogwan* olau dydd? Ac nid addewid mohono chwaith. Fedr neb ohonom addo'n bendant flwyddyn dda i'n gilydd. Dyhead ydi'r geiriau cyfarwydd hyn. Y cyfan y medrwn ei wneud ar droad y flwyddyn ydi dyheu am flwyddyn lawn o fendithion i'n gilydd, a dymuno i'r naill a'r llall bob daioni posibl dros y dyddiau a'r wythnosau a'r misoedd nesaf.

Dymunwn yn dda i deulu a chyfeillion a chymdogion, gan weddïo y bydd i bob un ohonom brofi'r gorau posibl dan ofal tyner yr Arglwydd Dduw. Wyddon ni ddim beth sydd o'n blaen, ond gweddïwn am yr iechyd gorau posibl ac am bob llwyddiant a dedwyddwch i bawb o'n cydnabod. A thrwy fisoedd y flwyddyn newydd, boed i ni brofi gras a nerth i gynnal ein gilydd ac i lawenhau neu dristáu gyda'n gilydd yn ôl angen y dydd.


Dymunwn yn dda i bobl y Ffydd yn ein gwlad a'n bro. Boed i bawb sy'n arddel Iesu Grist yn Arglwydd a Gwaredwr brofi nerth i lynu wrth eu proffes ac i ddal ati i ddwyn eu tystiolaeth iddo. Gweddïwn dros yr eglwysi yn eu haddoliad a'u gwasanaeth i'r Un sydd wedi eu caru ac sy'n rhoi ystyr i'w bodolaeth.

A dymunwn yn dda i ddioddefwyr ein byd. Ond gwnawn hynny gan sylweddoli mor wag y gall ein dymuniadau ni fod. Pa werth ein geiriau i bobl Wcráin a Gaza a'r mannau eraill yn ein byd sy'n parhau i ddioddef ar ddechrau'r flwyddyn newydd? Mae angen mwy na dymuniadau da ar bobl Gaza heddiw yn wyneb yr hil-laddiad y mae byd cyfan yn dyst iddo wrth i wladwriaeth Israel barhau ei hymosodiad dialgar ac anghymesur wedi cyrch barbaraidd Hamas ddechrau mis Hydref. Sut allwn ddymuno'n dda i bobl Gaza, a sut allwn hyd yn oed weddïo drostyn nhw heb i ni hefyd ddyheu am ddiwedd diymdroi i'r bomio a'r lladd, a heb i ni alw ar ein gwleidyddion i wneud popeth o fewn eu gallu i ddwyn perswâd ar Lywodraeth Israel i ddod â'r cyfan i ben yn ddi-oed?

Dros y Nadolig rhoesom sylw unwaith eto i bethau cyfarwydd Stori'r Geni sy'n anghyfarwydd i'n mynd a dod beunyddiol: yr angylion a'u neges; y seren a'i harweiniad; a'r rhyfeddaf ohonyn nhw i gyd, y babi bach oedd yn Fab y Duw byw. Ond y trasiedi mwyaf eleni ydi bod un elfen o'r Stori honno'n frawychus a chywilyddus o gyfarwydd. Efengyl Mathew (2:13-15) sy'n adrodd hanes Herod yn lladd y bechgyn bach yn ei ymdrech aflwyddiannus i wared â'r brenin newydd a anwyd ym Methlehem. Yr adeg hon y llynedd, pwy allasai ddychmygu y byddai deng mil o fabanod a phlant wedi eu lladd yn Gaza cyn diwedd y flwyddyn? Daliwn i weddïo dros deuluoedd a ddrylliwyd a thros genedl y mae llywodraeth ei chymdoges agosaf am ei difrodi. Ac ie, daliwn i weddïo ac i alw am ddiwedd diymdroi i'r gyflafan.

Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

# SYRCAS!




Diddorol tu hwnt oedd yr eitem yn rhifyn Rhagfyr am yr 'Eliffant ar y Lôn Bost' ym Methesda a ffotograffau yr amgylchiad hwnnw. Daeth y syrcas i'r dre, a pha well ffordd i hysbysebu na chael yr eliffant i gyhoeddi hynny ar hyd heolydd yr ardal.

Cefais fy atgoffa am lyfr hynod ddifyr sy'n fy meddiant a ysgrifennwyd gan ewythr i mi a fu'n weinidog gyda'r Annibynwyr yng nghapel Bethesda am nifer o flynyddoedd, sef y Parchedig John Glyn Hughes. Hyd y gwn dyma'r unig lyfr Cymraeg sy'n cofnodi hanes y syrcas o'i dechreuad. Rhoddodd y teitl "**Difyrrwch y Llwch Llif**" ar ei gyfrol sy'n awgrymu cymaint o bleser a gai o'r sioeau anhygoel hyn, a'i fod yn ôl y broliant ar gefn y llyfr yn *'ymweld â phob syrcas sydd yn dod o fewn cyrraedd rhesymol i'w gartref ym Methesda'*. Cyhoeddwyd y llyfr gan Wasg Gee, Dinbych yn 1986.

Roedd John Glyn Hughes yn berson amryddawn iawn, yn aelod o dîm Dyffryn Ogwen ar 'Talwrn y Beirdd', yn aelod o Orsedd y Beirdd, ac yn hoff iawn o fyd y ddrama. Ond ei bleser pennaf yn ôl yr hyn a gofiaf oedd pysgota. Roedd glannau Afon Ogwen yn ail gartref iddo, a'i ddawn fedrus efo'r enwair yn chwedl i'r rhai â'i adnabu. Yn ôl un cymeriad ffraeth a chellweirus yr oedd John Glyn wedi dal cymaint o eogiaid yn yr afon fel y dylai newid ei enw i John West !

Trysoraf y gyfrol fach unigryw yma, ac yn ei ragair dywed yr awdur "*Ers dyddiau fy mhlentyndod bu rhywbeth cyfareddol a rhamantus i mi mewn syrcas. Cefais foddhad a phleser anfesuradwy yn olrhain eu hanes ac yn gwylio'u perfformiadau. Hynny a'm hysgogodd i geisio rhoi peth o'r hanes ar gof a chadw yn yr iaith Gymraeg, oherwydd hyd y mae'n wybyddus i mi ni wnaethpwyd hynny o'r blaen*".

**John Roberts**

# BRWYDR YR IAITH DROS 60 MLYNEDD


Mae llyfryn wedi ei gyhoeddi sy'n rhoi cefndir darlith radio enwog Saunders Lewis, 'Tynged yr Iaith', yn 1962, a hanes y protestio a ddigwyddodd o ganlyniad.

Teitl y llyfryn ydi *Darlith Saunders a'i Dylanwad*, a'r awdur ydi Ieuan Wyn, ac mae'n seiliedig ar ddarlith a draddodwyd ganddo yng Nghanolfan Hanes Uwchgwyrfai yn 2022 i gofio 60 mlynedd ers darlledu 'Tynged yr Iaith'.

Mae'r llyfryn yn egluro amgylchiadau comisiynu a darlledu'r ddarlith 'Tynged yr Iaith' gan y BBC, yn rhoi braslun o'i chynnwys, ac yn cyflwyno darlun o frwydr yr iaith o'r 1960au hyd at heddiw. Cawn hanes sefydlu Cymdeithas yr Iaith a'r mudiadau iaith eraill – Adfer, Cymuned, Cylch yr Iaith a Dyfodol i'r Iaith – a'r ymgyrchoedd dros yr iaith yn ystod y cyfnod.

Edrychir ar sefyllfa argyfyngus ein hiaith heddiw a'r ymdrechion i'w gwarchod, a thrafodir yr amodau y mae'n rhaid eu creu er mwyn sicrhau ei pharhad a'i ffyniant fel iaith gymunedol.

Cyhoeddir gan Nereus, Y Bala, ar ran Gwasg Utgorn Cymru. Ar werth yn y siopau llyfrau Cymraeg. Pris: £4.00.





Gareth Williams

TREFNYDD ANGLADDAU

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.






Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk